

CYFARFOD RHYFEDDOL ym Mynwent Penmachno


Hywel Roberts

Roedd fy mam, Kate, yn hannu o Benmachno a hawdd iawn oedd olrhain achau fy nhaid, Robert Cadwalladr Williams, ond roedd cryn ddirgelwch ar ochr fy nain, Jane, neu Jini Williams fel y gelwid hi yn y pentref. Gwyddwn fod fy nain wedi ei mabwysiadu gan gwpwl o'r enw Mark a Jane Owen, ond hefyd roeddwn yn cofio fy mod, pan oeddwn yn blentyn bychan, wedi cyfarfod ei mam naturiol, sef fy hen nain a alwn yn "Nain Glan Conwy". Roedd mam tua 80 oed cyn iddi adrodd yr hanes llawn wrthyf.

Ganwyd fy hen nain, Margaret Ann Jones, yn 1865 ac erbyn 1887 roedd yn gweini mewn plasdy bychan, Glasgwm Hall, tu allan i bentref Penmachno yng nghyfeiriad y Wybrnant. Bu Glasgwm Hall yn eiddo i'r Arglwydd Mostyn ac fe'i gwerthwyd i'r Arglwydd Penrhyn yn 1854. Erbyn 1887 yr ysgweir oedd gŵr o'r enw Owen Jones oedd yn nai ac yn bartner busnes i Owen Gethin Jones, yr adeiladydd, peirannydd, bardd ac hanesydd lleol. Bu'r bartneriaeth yn llwyddiannus iawn a hwy adeiladodd ffatri wllan Penmachno ac eglwys Betws y Coed a buont yn brysur iawn gyda'r gwaith o ddatblygu'r rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru yn yr ail hanner o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n debyg mai uchafbwynt eu gwaith oedd adeiladu'r rheilffordd o Fetws y Coed i Ddolwyddelen gan gynnwys y bont gyda 27 bwa dros afon Lledr a elwir yn "Bont Gethin" hyd heddiw.

Alltudio'r mab afradlon i'r Amerig

Yn 1887 roedd Margaret Ann yn feichiog a'r tad oedd un o feibion Owen Jones. Roedd Owen Jones yn flaenllaw yn y capel ac roedd y mab hynaf, Y Parchedig David O. Jones, yn brysur sefydlu ei enw fel gweinidog a phregethwr gyda'r Wesleiaid. Nid oedd Owen Jones felly eisiau sgandal a phenderfynodd alltudio'r mab afradlon ac anfonwyd ef i'r America ac ni welwyd mohono ym Mhenmachno wedyn. Doedd fy mam felly ddim yn adnabod ei thaid nac hyd yn oed yn gwybod ei enw. Ond roedd yn gwybod mai Owen Jones, Glasgwm Hall, oedd ei hen daid er na allai sôn am hyn wrth neb.



Pont Gethin dros afon Lledr



Glasgwm Hall gyda Chwm Glasgwm yn y cefndir

Wedi dweud y gyfrinach roedd mam yn aml yn dyfalu beth oedd wedi digwydd i'w thaid. Tybed a oedd ganddo ddisgynyddion yn America? Roeddwn wedi penderfynu chwilio am y teulu ar ôl ymddeol – er y byddai fel chwilio am nodwydd mewn tās wair.

Hanes Pregethwyr a godwyd ym Mhenmachno


Ym mhapurau mam fe ddarganfyddais lyfryn "Hanes y Pregethwyr godwyd ym Mhenmachno yn ystod y 80 mlynedd diweddar", traethawd buddugol yn Eisteddfod Machno, Nadolig 1912. Ynndo mae 36 tudalen o brint mân yn adrodd hanes 48 o bregethwyr a gweinidogion gyda'r Bedyddwyr, y Wesleiaid, y Methodistiaid Calfinaidd a'r Eglwys. Cefais hanes y Parch. David Owen Jones ac enwau ei daid, William Jones, Bryn Glas, a'i hen daid, David Jones, Tŷ Newydd a oedd yn flaenllaw yn sefydlu achos y Wesleiaid ym Mhenmachno. Felly, gyda'r wybodaeth yma yn ogystal ag astudio "Arysgrifau cerrig-coffa Eglwys Sant Tudclud, Penmachno" a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd, cefais wybodaeth helaeth am y teulu. Ond roedd un enw pwysig ar goll.

Bywyd a beiau Owen Gethin Jones

Fel rhagarweiniad i hel fy achau bŵm yn ffodus fod fy ffrind Vivian Parry Williams wedi ysgrifennu y llyfr safonol "Plwyf Penmachno", yn ogystal â'r llyfr gwerthfawr

ar fywyd Owen Gethin Jones, "Owen Gethin Jones: Ei Fywyd a'i Feiau". Ar nos Wener ym mis Mai 2002 dywedodd fod ganddo bapurau a fyddai o ddiddordeb teuluol i mi a chan ein bod ni'n dau yn mynd i angladd ym Mhenmachno drannoeth, penderfynwyd cyfarfod.

Felly, ar Fai 11, yn dilyn y gwasanaeth yng nghapel Bethania a mynwent Angorfa, awgrymodd Vivian ein bod yn nôl y dogfennau o'r car cyn mynd i'r te angladdol. Aethom drwy hen fynwent yr Eglwys gan



William Ogwen Jones fy hen daid